**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (40)**

**Dydd Mercher, 18 Rhagfyr 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma am y cwestiynnau

**Eitem 2**
**Cwestiynau Cyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma am y cwestiynnau

**Eitem 3**
**Cwestiwn Brys:** I ofyn a fyddai'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn gwneud datganiad ar y 223 o swyddi a gollwyd yng Nghanolfan Alwadau Pont Cleddau, yn dilyn cyhoeddiad Vertex ddydd Iau diwethaf, 12 Rhagfyr 2002.

**Eitem 4**
**Datganiad: Y cyflenwad o dywod a graean yn Ne-ddwyrain Cymru**

**Eitem 5**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Diwygio'r Drefn Brydlesol (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2002**
**NDM1271 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Diwygio'r Drefn Brydlesol (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2002.

**NDM1272 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Diwygio'r Drefn Brydlesol (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Rhagfyr 2002;

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2002.

Cliciwch yma am y gorchymyn
Cliciwch yma am yr adroddiad

**Eitem 6**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau'r Ddeddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002**
**NDM1279 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62 (1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan Ddeddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002, ac eithrio'r rhai na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei wneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidogion priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n berthnasol.

*Mae Deddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 ar gael ar y Rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cyswllt isod:*

*http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2002/20020015.htm*

**Eitem 7**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Rhestri Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002**
**NDM1273 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2002.

**NDM1274 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10

Rhagfyr 2002.

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2002.

Cliciwch yma am y gorchymyn
Cliciwch yma am yr adroddiad

**Eitem 8**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) a (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002**
**NDM1275 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) a (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Rhagfyr 2002.

**NDM1276 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) a (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Rhagfyr 2002.

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Rhagfyr 2002.

Cliciwch yma am y gorchymyn
Cliciwch yma am yr adroddiad

**Eitem 9**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002**
**NDM1277 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002, gan gynnwys Atodlen 5, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Rhagfyr 2002.

**NDM1278 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2002.

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Rhagfyr 2002.

Cliciwch yma am y gorchymyn
Cliciwch yma am atodlen 5
Cliciwch yma am yr arfarniad rheoliadol
Cliciwch yma am yr adroddiad

**Eitem 10**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau'r Ddeddf Digartrefedd 2002**
**NDM1280 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 62 (1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weindog Cymru holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan Ddeddf Digartrefedd 2002, ac eithrio'r rhai na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei wneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidogion priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n berthnasol.

Mae Deddf Digartrefedd 2002 ar gael ar y Rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cyswllt isod:

http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2002/20020007.htm

**Eitem 11**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau i Bwyllgor y Ty**
**NDM1258 John Marek (Wrecsam);**
Wrth arfer ei bwerau o dan adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a'r holl bwerau eraill sy'n ei alluogi yn hynny o beth, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:-

(1) yn dirprwyo i Bwyllgor y Ty a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 36 ei swyddogaethau:-

(a) o dan adrannau 33, 34(1), 40 a 85 y Ddeddf honno; ac

(b) o ran y gwasanaeth sifil, swyddogaethau rheoli o fewn ystyr adran 1 Deddf y Gwasanaeth Sifil (Swyddogaethau Rheoli) 1992;

ond yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a ganlyn:-

(i) ni fydd y swyddogaethau hynny ond yn cael eu dirprwyo cyn bellad ag y mae'n gymwys i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 36.2; a

(ii) bydd Pwyllgor y Ty yn dirprwyo i staff y Cynulliad y swyddogaethau uchod a ddirprwywyd iddo

(2) yn diddymu unrhyw ddirprwyo blaenorol ganddo o'r swyddogaethau uchod i'r Prif Weinidog ond dim ond i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny bellach wedi'u dirprwyo i Bwyllgor y Ty.

**Eitem 12**
**Cynigion i gymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog**
**NDM1257 John Marek (Wrecsam);**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, a Rheol Sefydlog 34:

(i) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2002;

ac yn

(ii) cymeradwyo'r diwygiad a ganlyn i'r rheol sefydlog

Rhoi yn lle rheol sefydlog 36-

**"Rheol Sefydlog 36 - Pwyllgor y Ty**

Teitl

Bydd yna Bwyllgor Ty

**Cylch Gorchwyl**

36.2 Yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y rheol sefydlog hon, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am:

(a) ddarparu i'r Aelodau ac ar eu cyfer (gan gynnwys pan fyddant yn cymryd rhan yn

nhrafodion y Cynulliad) gyfleusterau, llety, staff a'r gwasanaethau cymorth eraill sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn i'r Aelodau arfer eu gwaith yn well fel Aelodau o'r Cynulliad, gan gynnwys yn rhinwedd ei waith fel corff deddfwriaethol;

(b) darparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg a Saesneg ar gyfer trafodion y Cynulliad**;**

(c) paratoi canllawiau i'r Aelodau ar faterion y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdanynt**;**

(d) rhoi cyngor i'r Cynulliad ar faterion yn ymwneud â'i gylch gorchwyl a chyflogau, lwfansau a phensiynau'r Aelodau;

(e) paratoi cyllideb ddrafft ar gyfer y gwariant y bydd yn ei dynnu a gweinyddu'r gyllideb gymeradwy; a

(f) pharatoi'r gwasanaethau eraill i'r Aelodau ac ar eu cyfer sy'n debyg i'r rhai a ddisgrifir uchod gan gynnwys cyfrifoldeb dros unrhyw estyniad i'r adeilad lle mae'r Cynulliad yn arfer cynnal ei gyfarfodydd llawn, yn unol â'r hyn y gallai'r Cynulliad ei awdurdodi o bryd i'w gilydd drwy benderfyniad yn y cyfarfod llawn.

36.3 Ni fydd unrhyw beth ym mharagraff 36.2 yn peri y bydd cylch gorchwyl y pwyllgor yn rhoi iddo gyfrifoldeb:-

(a) yn unrhyw faes y mae gan y Cynulliad swyddogaethau ynddo (o fewn ystyr adran 57 o'r Ddeddf); nac

(b) o ran trafodion Cabinet y Cynulliad

**Aelodaeth**

36.4 Yn ddarostyngedig i ofynion adran 54(2)(b) y Ddeddf a pharagraff 8.3, y dylai cydbwysedd grwpiau gwleidyddol y Cynulliad, cyn belled ag y mae hynn'n ymarferol, gael ei adlewyrchu yn aelodaeth y Pwyllgor, bydd Pwyllgor y Ty yn cynnwys o leiaf 7 a hyd at 11 aelod gan gynnwys y cadeirydd.

36.5 Os cânt eu hethol yn aelodau o'r Pwyllgor, bydd y Llywydd, y Dirprwy Lywydd a'r Trefnydd yn peidio â bod yn aelodau o'r pwyllgor unwaith y byddant wedi gadael y swyddi hynny.

36.6 Os na fydd y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd neu'r Trefnydd yn aelodau o'r Pwyllgor bydd ganddynt hawl i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor a chânt gymryd rhan yn y cyfarfodydd, gyda chaniatâd y Cadeirydd, ond ni chânt bleidleisio.

36.7 Gall aelod o'r Pwyllgor ("yr aelod"), ar ôl rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r Cadeirydd, gael ei gynrychioli yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor gan Aelod arall a enwebir o blith yr un grwp gwleidyddol y mae'r Aelod hwnnw'n perthyn iddo ac a enwir ymlaen llaw. Wrth roi rhybudd o'r fath, bydd yr aelod yn rhoi'r rheswm dros anfon eilydd. Gall yr aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi yn aelod o'r pwyllgor. Ni chaiff unrhyw aelod gynrychioli mwy nag un aelod o'r Pwyllgor mewn cyfarfod.

36.8 Bydd y Pwyllgor yn ethol un o'r aelodau'n gadeirydd.

36.9 Caiff aelod arall o'r Pwyllgor gadeirio un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn absenoldeb y cadeirydd neu os na chaniateir i'r cadeirydd gymryd rhan yn ystyriaethau'r Pwyllgor o unrhyw fater neu os yw'n dewis peidio â chymryd rhan. Penodir yr aelod hwnnw gan y Pwyllgor naill ai yn y cyfarfod o dan sylw neu mewn cyfarfod blaenorol.

**Cyfarfodydd**

36.10 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd llawn, oni bai bod y Pwyllgor yn penderfynu fel arall.

36.11 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn gyhoeddus neu'n breifat, fel y gwêl yn briodol, ond caiff cofnodion y cyfarfodydd eu cyhoeddi chwe wythnos fan bellaf ar ôl pob cyfarfod.

36.12 Gall y Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd a bydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol.

**Swyddfa’r Llywydd**

36.13 Bydd gwasanaethau staff cymorth y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am eu darparu o dan ei gylch gorchwyl yn cael eu darparu drwy uned staff y Cynulliad a elwir yn Swyddfa'r Llywydd. Y Clerc fydd pennaeth Swyddfa'r Llywydd a chaiff ei sefydlu a'i chynnal o dan drefniadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Parhaol.

**Cod Ymddygiad**

36.14 Bydd cadeirydd y Pwyllgor yn paratoi ac yn cyflwyno i'r Cynulliad eu cymeradwyo ganllawiau ("y Cod") i'r:-

(a) Pwyllgor ar ei gylch gorchwyl; ac i

(b) aelodau'r Pwyllgor ar eu cyfrifoldebau fel aelodau'r Pwyllgor.

Bydd y Cod yn cynnwys canllawiau ar berthynas y Pwyllgor a'i aelodau â'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Clerc a staff eraill yn Swyddfa'r Llywydd.

Bydd cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi copi o'r Cod i bob aelod o'r Pwyllgor a bydd yn ceisio sicrhau bod pob aelod o'r Pwyllgor yn cydymffurfio ag ef.

**Gweinidogion y Cynulliad a Staff Eraill y Cynulliad**

36.17 Yn ddarostyngedig i baragraff 36.18, ni fydd unrhyw beth yn y Rheol Sefydlog hon yn peri ei bod yn rhan o gylch gorchwyl y pwyllgor i ddarparu cyfleusterau, llety, staff na gwasanaethau cymorth eraill na chanllawiau i unrhyw Aelod nac ar ei gyfer wrth weithredu fel Gweinidog y Cynulliad neu staff y Cynulliad nad ydynt yn rhan o Swyddfa'r Llywydd.

36.18 Ni fydd paragraff 36.17 yn berthnasol i'r cyngor y gallai'r Pwyllgor ei roi o dan baragraff 36.2(d) i'r graddau y mae'n ymwneud â chyngor ar gyflogau, lwfansau a phensiynau'r Aelodau.

**Darpariaethau Trosiannol**

36.19 Bydd aelodau cyntaf y Pwyllgor, yn unol â'r ailgyfansoddi ym mharagraffau blaenorol y Rheol Sefydlog hon, yn cael eu hethol cyn gynted â phosibl, a phryd hynny bydd aelodau Pwyllgor y Ty yn unol â'r cyfansoddiad yn y darpariaethau y daw'r Rheol Sefydlog hon yn eu lle, yn peidio â dal y swyddi hynny ac i'r graddau hynny ni fydd paragraff 8.3 yn gymwys. Bydd effaith y paragraff hwn ar aelodau Pwyllgor y Ty yn unol â'r cyfansoddiad blaenorol yn dod i ben pan fyddant yn peidio â dal y swyddi hyn. "

**NDM1259 John Marek (Wrecsam);**
Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 34:

(i) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2002;

(ii) yn cymeradwyo'r diwygiadau a ganlyn i'r Rheolau Sefydlog

(a) <u>Paragraff Dehongli</u>

Diffiniad o'r Clerc: Rhoi "Swyddfa'r Llywydd" yn lle "Swyddfa'r Llywydd" [Nid yw'r newid hwn yn effeithio ar y fersiwn Gymraeg]

(b) <u>RhS 4</u>

4.3 a 4.4 rhoi "i'r Swyddfa Gyflwyno" yn lle "i Swyddfa'r Llywydd"

(c) RhS 5

5.1 ychwanegu ar y diwedd "ac Aelod o Bwyllgor y Ty sy'n ateb ar ran y Pwyllgor hwnnw"

(d) RhS 6

6.3 rhoi (vi) newydd fel a ganlyn:

"(vi) i Aelod o Bwyllgor y Ty ateb cwestiynau llafar o leiaf unwaith, ac am o leiaf 5 munud, ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cwrdd mewn cyfarfod llawn."

6.5 ychwanegu is-baragraff newydd fel a ganlyn:

"(va) dadl ar adroddiad blynyddol Pwyllgor y Ty)"

6.9 ychwanegu ar y diwedd:

"Os bydd y mater yn rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Ty, yna yn lle "Gweinidog" yn y paragraff hwn, rhodder "aelod o Bwyllgor y Ty yn ateb ar ran y Pwyllgor hwnnw."

6.11 ar ôl "Datganiadau gan Weinidogion" ychwanegu:

"Datganiadau gan aelodau Pwyllgor y Ty ynghylch unrhyw fater sy'n rhan o gyfrifoldebau'r Pwyllgor hwnnw"

6.26A newydd fel a ganlyn:

"Caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau i'w hateb ar lafar gan aelod o Bwyllgor y Ty ynghylch unrhyw fater sy'n rhan o gyfrifoldebau'r Pwyllgor hwnnw."

6.28

(i) ar ôl "dau gwestiwn" ychwanegu "i Weinidog penodol"

(ii) ar ôl y geiriau "paragraff 6.3(i)" ychwanegu "neu i aelod o Bwyllgor y Ty o dan baragraff 6.3 (vi)"

(iii) dileu "gan Weinidog penodol"

6.30 ar ôl "Ysgrifenyddion y Cynulliad" ychwanegu:

"a'r aelod o Bwyllgor y Ty"

6.31 ychwanegu ar y diwedd:

"Ni fydd y paragraff hwn yn berthnasol i gwestiynau i'w hateb ar lafar gan aelod o Bwyllgor y Ty."

6.34(A): dileu

6.37 (ii) ar ôl "Llywydd", ychwanegu:

"(neu, os yw'r mater yn rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Ty, aelod o'r pwyllgor hwnnw)".

6.37 (iii) dileu "y Gweinidog" ac ychwanegu "yr Aelod"

(e) <u>RhS 12</u>

12.5 Dileu paragraff 12.5 a rhoi yn ei le:

"12.5 . Pan fydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o dan baragraff 12.3(i) bydd yn anfon copi at y Prif Weinidog. Os bydd yr adroddiad yn ymwneud ag unrhyw fater sy'n rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Ty, bydd yn anfon ar yr un pryd gopi i gadeirydd y Pwyllgor hwnnw. O fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r Prif Weinidog dderbyn adroddiad bydd Gweinidog, os yw'r adroddiad yn ymwneud â mater y mae'r Gweinidog yn atebol neu'n gyfrifol amdano i'r Cynulliad, yn gosod gerbron y Cynulliad ymateb i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar ran Cabinet y Cynulliad, ac os yw'r ymateb hwnnw'n un interim, bydd y Gweinidog yn gosod ymateb terfynol gerbron y Cynulliad o fewn dau fis pellach. I'r graddau y mae adroddiad y Pwyllgor Archwilio'n ymwneud â materion sy'n rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Ty, yna ymhen 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r cadeirydd dderbyn copi o'r adroddiad hwnnw, bydd aelod o Bwyllgor y Ty, ar ran y Pwyllgor hwnnw, yn gosod gerbron y Cynulliad ymateb i adroddiad y Pwyllgor Archwilio; ac os bydd yr ymateb hwnnw'n un interim, bydd aelod o Bwyllgor y Ty yn gosod ymateb terfynol gerbron y Cynulliad o fewn dau fis pellach".

12.7 ychwanegu ar y diwedd:

"(neu os yw'r mater yn rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Ty, os oedd ef neu hi ar yr adeg berthnasol yn aelod o Bwyllgor y Ty wedi'i ailgyfansoddi ar ôl [dyddiad])"

(f) <u>RhS 16</u>

16.1 (ii) ychwanegu ar y diwedd "neu'r Cod Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 36.14".

(g) <u>RhS 17</u>

17.5 (iii) ychwanegu ar y diwedd:

"neu aelodau Pwyllgor y Ty"

(h) <u>RhS 19</u>

Newid y cyfeiriadau at "Swyddfa'r Llywydd" i "Swyddfa'r Llywydd" ym mharagraffau 00, 5A a 7A bob tro y mae'n digwydd [Nid yw'r newid hwn yn effeithio ar y fersiwn Gymraeg]

19.00 dileu "rhwng y Llywydd, y Clerc a'r" a rhoi "â'r"

19.5A ar ôl "Bwyllgor y Ty" ychwanegu "ac ar ôl trafodaeth yn y Pwyllgor â'r Gweinidog Cyllid"

19.5A dileu "yn ddarostyngedig i baragraff 19.5B, caiff y Clerc" a rhoi "caiff Pwyllgor y Ty, ar ôl trafod â'r Gweinidog Cyllid,"

Dileu paragraff 19.5B

19.7A dileu "'r Llywydd a"

19.22 dileu "y Llywydd" a rhoi "Pwyllgor y Ty"

(i) <u>RhS 20</u>

20.3 ar ôl "Weinidog" rhoi "neu gadeirydd Pwyllgor y Ty"

(j) <u>RhS 21</u>

Rhoi paragraff 21.10 newydd fel a ganlyn:

"12.10 Pan fo adroddiad neu adroddiad pellach yn ymwneud â mater sy'n rhan o gyfrifoldebau Pwyllgor y Ty, ni fydd darpariaethau'r Rheol Sefydlog hon sy'n ymwneud â rhan y Gweinidogion (ac eithrio'r Prif Weinidog) a'r pwyllgorau pwnc, cyn belled ag y bo'n briodol, yn berthnasol, ond bydd cadeirydd Pwyllgor y Ty yn gwneud trefniadau priodol gyda'r Prif Weinidog i'r adroddiad gael ei ystyried gan y pwyllgor hwnnw ac i'w ymateb gael ei anfon at y Prif Weinidog."

(k) <u>RhS 33</u>

RhS 33.1 dileu "i Swyddfa'r Llywydd" a rhoi "i'r Swyddfa Gyflwyno".

**Eitem 13**
**Dadl fer - NDM1281- Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Clefyd Niwronau Motor: Darparu Gwasanaethau**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 14 Ionawr 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**